**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 MEDI, 2022**

**Yn NEUADD BENTREF FFOSTRASOL, FFOSTRASOL am 7.30 p.m.**

**Yn bresennol** Cyng. Maldwyn Lewis (cadeirydd), Cyng. Roger Davies, Cyng. Ceri Jones, Cyng. Siân Williams, Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Emyr Jones, Cyng. Mark Davies, Cyng. Llŷr Evans

**Ymddiheuriadau** Cyng. Teifi Evans a Chyng. Rob Jones.

**Clerc** Margaret Jones

| **Eitem ar yr Agenda** | | **Gweithredu** | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Teifi Evans, a Rob Jones. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Datgelodd Cyng. Llŷr Evans fudd yng Nghais Cynllunio A220444, fel ymgeisydd. | | |
| 3 | Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Mehefin. | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Mehefin. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Ni chafwyd ateb eto gan Mr. Gwyn Jones i'r llythyr a anfonwyd gan y Clerc yn gofyn iddo fod yn archwilydd mewnol. | | |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Siân Williams bod cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol, Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Mehefin yn gywir ac eiliwyd y cynnig gan Gyng. Mark Davies. | | |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Adroddodd Cyng. Maldwyn Lewis bod materion sir yn dawel. Roedd fan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymweld â phentrefi lleol, gan ddarparu gwybodaeth a dolen gymorth i breswylwyr yng Ngheredigion fel rhwydwaith cymorth ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol.<br>Yn ogystal, hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng. Lewis bod rheolau/asesiadau risg newydd wedi dod i rym nawr ar gyfer yr holl safleoedd Glampio/Air B&B mewn perthynas â thwbâu twym.<br>Yn ogystal, estynnodd Cyng. Lewis longyfarchiadau i'r holl fyfyrwyr ar eu Canlyniadau lefel A a TGAU. Gwelir graddau uwch na'r graddau cyfartalog a welir yng Nghymru yng Ngheredigion<br>Bu'r Eisteddfod a gynhaliwyd yn Nhregaron fis Awst yn llwyddiant mawr i'r sir. | | |
| 7. | Gohebiaeth | Gwobrau Dewi Sant – cafwyd neges e-bost am yr enwebiadau – y dyddiad cau yw 20.10.2022. Caiff y mater ei gynnwys ar Agenda cyfarfod mis Hydref. | | |

| | |
|---|---|
| | Cafwyd hysbyseb – mae Cyngor Cymuned Beulah yn chwilio am Glerc.<br><br>Neges e-bost gan Heddlu Dyfed Powys yn rhybuddio preswylwyr am Sgamiau yn yr Ardal.<br>Roedd llythyr wedi cael ei anfon ymlaen i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gan Margaret Jones (Clerc) yn nodi ei phenderfyniad i roi'r gorau i'w swydd fel Clerc Cyngor Cymuned Troedyraur. Trafodwyd y mater a diolchodd y Cynghorwyr i'r Clerc am ei gwaith. Esboniodd y Clerc bod y llwyth gwaith yn mynd yn ormod a diolchodd i'r holl Gynghorwyr am eu cymorth yn ystod ei chyfnod yn y swydd. |
| 8. Cynllunio | Glasfryn, Croes-lan – A220571 – trafodwyd y mater a bydd y Clerc yn ymateb gyda sylw gan nodi y dylid dilyn rheolau cynllunio.<br><br>Fferm Glanllyn, Penrhiwpâl – A220444 – gadawodd yr ymgeisydd, Cyng. Llŷr Evans, y cyfarfod tra bod y mater yn cael ei drafod. Roedd yr holl Gynghorwyr yn cytuno bod y cais wedi cael ei gyflwyno'n dda gan bod yr annedd/menter wledig eisoes yn sefydledig, ac yn ehangu. Cais wedi'i gyflwyno yn dda gyda'r holl gyfiawnhad a'r holl reolau cynllunio yn cael eu dilyn. |
| 9.Asesiad Risg | Trafodwyd a chytunwyd. Bydd Cyng. Sharon Thomas yn anfon copi ymlaen i'r holl Gynghorwyr. |
| 10. Adolygu Gwarcheidwaid Diffibrilwyr | Diweddarwyd yr enwau ac roedd pawb a oedd yn bresennol yn cytuno bod y rhestr ganlynol yn gywir:-<br>Ffostrasol – Cyng. Mark Davies<br>Croes-lan – Cyng. Sharon Thomas<br>Coed-y-bryn – Cyng. Roger Davies<br>Rhydlewis – Cyng. Ceri Jones<br>Brongest – Cyng. Teifi Evans<br>Maes-llyn – Cyng. Siân Williams<br>Penrhiwpâl – Cyng. Maldwyn Lewis<br>Bwlch-y-groes – Cyng. Mark Davies<br><br>Cafwyd trafodaeth a phenderfynwyd y dylid gosod blwch diffibriliwr newydd yn Ffostrasol gan nad yw'r blwch presennol yn dal dŵr. Mae blwch y diffibriliwr yng Nghoed-y-bryn yn gollwng hefyd – caiff y mater hwn ei gynnwys ar Agenda cyfarfod mis nesaf. |
| 11. Ariannol | **Archwiliad a Datganiadau Blynyddol –** yn aros am ddiweddariad gan Mr. Gwyn Jones cyn y bydd modd cwblhau'r rhain.<br><br>**Llofnodwyr NatWest** – bydd Cyng. Sharon Thomas yn rhoi sylw i'r mater ac yn adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf.<br><br>**Taliadau** CThEM - £43.40 (PAYE) x 2<br>Cyflog y Clerc - £173.80 x 2<br>Treuliau'r Clerc - £70.34<br>Ashmole & Co., - £85.80<br>Ceri Jones - £30 |

| | | |
|---|---|---|
| | | Llofnododd Cynghorwyr Emyr Jones a Roger Davies y sieciau uchod yn ystod y cyfarfod. |
| 12. | Materion Ardal | **Cynghorydd Newydd** – nid oedd unrhyw un wedi mynegi diddordeb hyd yn hyn.<br>Tarfwyd ar brif gyflenwad dŵr Coed-y-bryn a Rhydlewis sawl gwaith yn ystod mis Awst.<br><br>**Ffostrasol** – cynhaliwyd noson lwyddiannus yn Neuadd Ffostrasol yng nghwmni Dafydd Pantrod.<br><br>Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng. Mark Davies o'r ffaith bod fan transit (platiau o Iwerddon) wedi cael ei dal yn ceisio dwyn yn yr ardal. Gofynnir i Gynghorwyr a phreswylwyr fod ar eu gwyliadwriaeth.<br><br>**Coed-y-bryn** – oherwydd tywydd poeth a sych – adroddwyd am glawdd a fu ar dân yng Nghoed-y-bryn.<br><br>Cynhelir bore coffi yn Neuadd Coed-y-bryn ar ddydd Sadwrn 1 Hydref.<br><br>Mae bwrdd gwybodaeth 'T. Llew Jones' yn Neuadd Coed-y-bryn wedi dilaminadu. Gwneir ymholiadau ynghylch disodli'r bwrdd.<br><br>**Rhydlewis** – estynnwyd llongyfarchiadau i Gyng. Ceri Jones am gymryd rhan yn Rali Bro Ceredigion yn ddiweddar. |
| 13. | Cyfryngau Cymdeithasol | Mae'r dudalen Facebook wedi cael ei chreu ac mae'n cael ei datblygu ar hyn o bryd. |
| 14. | Cyfarfod Nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 4 Hydref am 7.30 p.m. yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn.<br><br>Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.10 p.m. |
| 15. | Eitemau ar gyfer yr Agenda Nesaf | Ymddiheuriadau<br>Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid – Diweddariad am Daliadau Llofnodwyr/Gorchymyn<br>Materion Ardal – Blwch diffibriliwr; Cynghorydd Newydd<br>Gwobrau Dewi Sant<br>Cyfryngau Cymdeithasol<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |
| 16. | Cyfarfod Nesaf | **NOS FAWRTH, 4 HYDREF, 2022** am **7.30 p.m.** yn Neuadd Bentref Coed-y-bryn. |